**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau f'asesiad o Ddiogelwch Tân Confensiynol Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU (ABWR y DU) Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd (Hitachi-GE) (Y parti gwneud cais) a gynhaliwyd fel rhan o Gam 2 Asesiad Dyluniad Generig (GDA) y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR).

Mae'r broses GDA yn galw am asesiad gam wrth gam o gyflwyniad y Parti Gwneud Cais ar ddiogelwch, gyda'r asesiadau'n mynd yn gynyddol fanylach fel yr â'r prosiect yn ei flaen. Trosolwg yw Cam 2 GDA, yn unol â threfn reoleiddiol Prydain Fawr, o ba mor dderbyniol yw sylfeini'r dyluniad, yn cynnwys adolygiad o brif hawliadau diogelwch niwclear, diogeledd niwclear a diogelwch amgylcheddol gyda'r nod o ganfod unrhyw ddiffygion sylfaenol o ran diogelwch a diogeledd allai rwystro'r dyluniad arfaethedig rhag cael ei drwyddedu ym Mhrydain Fawr. Felly yn ystod Cam 2 GDA mae fy ngwaith wedi canolbwyntio ar asesu'r prif hawliadau ym maes Diogelwch Tân Confensiynol er mwyn barnu a fyddai'n bodloni disgwyliadau'r DU o ran diogelwch rhag tân wrth ddylunio adeilad.

Ar gyfer Diogelwch Tân Confensiynol, dehonglir "disgwyliadau'r DU" fel: yr egwyddorion dylunio a gynhwysir yn y safonau cenedlaethol cyhoeddedig priodol a safonau perthnasol cyfredol arfer da mewn diwydiant ar gyfer dyluniad a rheolaeth dros adeiladau.

Y safonau a ddefnyddir gennyf i farnu pa mor ddigonol yw'r hawliadau ym maes diogelwch tân yn bennaf yw gofynion deddfwriaethol yw Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a dogfennau canllaw asesu risg tân ategol a chodau ymarfer dylunio adeiladau perthnasol yn cynnwys Dogfen Gymeradwy 'B' i'r Rheoliadau Adeiladu, Safon Brydeinig 9999 a Safonau Prydeinig eraill fel bo'n briodol.

Mae fy ngwaith GDA Cam 2 wedi cynnwys cyfarfod dechreuol â'r Parti Gwneud Cais ar ffurf gweithdy cyfnewid technegol ac asesiad o Adroddiad Diogelwch Rhagarweiniol (PSR) y Parti Gwneud Cais a'r cyfeiriadau perthnasol at Ddiogelwch Tân Confensiynol. Digwyddodd ymweliad â Japan ym Mehefin 2014, i gwrdd â thîm dylunio Hitachi, cadarnhau dealltwriaeth gytûn ar ddisgwyliadau, edrych ar fodel tri dimensiwn o'r ABWR a mynd o amgylch safle ar hanner ei adeiladu. Gellir crynhoi hawliadau diogelwch rhagarweiniol y Parti Gwneud Cais perthnasol i Ddiogelwch Tân Confensiynol, fel y'i cyflwynir yn y PSR, fel a ganlyn:

- Cydymffurfio â chanllawiau a safonau diogelwch tân y DU, a gynhwysir yn bennaf yn BS 9999 ar gyfer dylunio adeiladau a chydymffurfio gydag arfer da mewn diwydiant perthnasol arall, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Canfod gwyriadau yn nyluniad yr ABWR oddi wrth godau Adeiladu a sefydlwyd ac oddi wrth ddisgwyliadau diogelwch tân oherwydd gofynion diogelwch niwclear a nodweddion dyluniad eraill.
- Darparu lefel gyfatebol o ddiogelwch tân ar gyfer pob un o'r gwyriadau drwy broses o ddethol a dewis ar sail cyfiawnhad cadarn ALARP.

Yn ystod f'asesiad Cam 2 GDA o agweddau ar achos diogelwch ABWR y DU perthnasol i Ddiogelwch Tân Confensiynol, rwyf wedi canfod y meysydd cryfder canlynol:

- Mae'r ddogfen PSR yn nodi gofynion deddfwriaethol perthnasol y DU yn glir ac yn cyfeirio at y canllawiau priodol ac arfer da perthnasol sy'n ffurfio'r meincnod ar gyfer asesu cydymffurfiad â'r gyfraith. Mae dealltwriaeth dda o ofynion swyddogaethol y ddeddfwriaeth a'r canllawiau yn bennaf yn amlwg yn y cyflwyniad. Mae'n galondid hefyd bod y Parti Gwneud Cais wedi nodi, ar gam cynnar, y bydd yna feysydd lle bydd ymlynu wrth yr adrannau canllaw a argymhellir yn heriol. Mae'r Parti Gwneud Cais wedi dogfennu cynnig i reoli gwyriadau oddi wrth gydymffurfiad cod gan broses ddethol asesiad risg mewn cyfuniad â chyfiawnhad ALARP ar gyfer y datrysiad dewisol, i sicrhau y bydd bylchau o ran risg yn cael eu lleihau.

Yn ystod f’asesiad Cam 2 GDA o agweddau ar achos diogelwch ABWR y DU perthnasol i Ddiogelwch Tân Confensiynol, rwyf wedi canfod y bydd angen ail edrych ar y meysydd canlynol:

- Er bod y Parti Gwneud Cais wedi disgrifio’r modd i ddatrys y gwyriadau oddi wrth ddisgwyliadau diogelwch tân y DU yn y PSR, ni roddir digon o fanylion am y fethodoleg arfaethedig. Mae angen dogfen strategol, fydd yn disgrifio proses gyson ar gyfer canfod, cofnodi, blaenoriaethu a rheoli gwyriadau yn ddigonol. Dylai’r strategaeth gynnwys digon o fanylion i ddisgrifio’r detholiad diogelwch tân a chyfiawnhad ALARP ar gyfer y datrysiad dewisol. Nid yw absenoldeb y manylyn hwn yng Ngham 2 yn allweddol ond dylai’r strategaeth rheoli gwyriadau gael ei datblygu yn gynnar yng Ngham 3.

Yn gyffredinol, ni welaf unrhyw reswm, ar sail Diogelwch Tân Confensiynol, pam na ddylai ABWR y DU symud ymlaen i Gam 3 y broses GDA.